

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 10fed Rhagfyr, 2018, yng Nghanolfan Bryncroes o 7.30 p.m. hyd 8.10 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Glenys Williams (Cadeirydd)
 Y Cyngorydd Glyn Roberts (Is-Gadeirydd)
 Y Cyngorwyr Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Michael Strain,
 Carys E. Williams, Siôn Williams
 Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Gwenan Griffith a'r
 Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)

74. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

75. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

76. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 12fed Tachwedd, 2018.

Materion yn Codi**(a) Eitem 62 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (b) – Biniau Halen**

Nodwyd mai dal i ddisgwyl am bris bin halen i'w gosod ar allt Coch Moel, Bryncroes, 'roedd y Clarc.

Penderfynwyd pwysu ar yr Adran Ffyrdd, Cyngor Gwynedd, am bris a rhoddwyd hawl i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd dderbyn y cyfryw os oedd yn rhesymol.

(b) Eitem 64 – Materion Ffyrdd

Cyflwynwyd atebiad y Peiriannydd Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd, i gwynion anfonwyd i'w sylw – copi o'r atebiad yn ffurflen rhan o'r cofnodion.

O berthynas i gymal (e) – Ty'r Ysgol, Botwnnog, derbyniwyd e-bost gan y Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir, iddo dderbyn tair galwad ffon gan "etholwyr gwahanol brynhawn ddoe (sef 5ed Rhagfyr, 2018) yn cwyno fod llifogydd drwg ar y safle. Mi ffoniais Caradog, a chwarae teg iddo, mi aeth draw yn syth i Fotwnog, a mynd a chriw efo fo gyda digar bach i agor y ffos oeddi wedi blocio. Dwi'n meddwl y buasai'n werth gofyn cwestiwn eto i'r Cyngor os yw gwaith 'hir dymor' wedi ei wneud 'rwan neu yntau ddim ond gwaith brys ddoe i atal llifogydd pellach."

Tynwyd sylw hefyd fod tarmac wedi ei roddi ar fynedfa'r Rheithordy a chodwyd y cwestiwn a oedd hyn yn creu y dwr i groni yn is i lawr.

Penderfynwyd gwneud ymholiadau ynglyn a'r broblem dwr ger Ty'r Ysgol. Botwnnog.

77. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ni dderbyniwyd unrhyw gais yn ystod y mis.

78. **MATERION FFYRDD**

Penderfynwyd anfon y materion a ganlyn ymlaen i sylw'r Peiriannydd Ardal:

- (1) Twll dwfn o flaen Capel Salem, Sarn, angen sylw.
- (2) Twll dwfn ar y ffordd o Graig Fael am Cae Newydd Meillionydd angen sylw.
- (3) Y ddwy gwter ger Bryn Awel, Penygroeslon, angen eu glanhau.
- (4) Y wal ger 'Sgody, Bryncroes, yn gogwyddo ac yn berygl – angen sylw.

79. **MATERION IECHYD**

- (a) Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymunedd Gogledd Cymru.
- (b) Cyflwynwyd adroddiad o gyfarfod fu ym Meddygfa Rhydbach, Botwnnog ar ddydd Llun, 3ydd Rhagfyr, 2018 – copi o'r adroddiad yn ffurfio rhan o'r cofnodion swyddogol.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad o dan gymal (b) uchod.

80. **AWDURDOD I DALU**

Cyflwynwyd y daenlen o'r derbyniadau a'r gwariant i fyny i 10fed Rhagfyr, 2018 yn dangos balans o £8,106.35 yn y banc – cylchredwyd y copi o amgylch yr aelodau. Nodwyd fod y cyfryw yn dderbyniol.

Penderfynwyd awdurdodi'r taliad a ganlyn:

Y Clarc	£372.55
HMRC	£ 93.20
Y Clarc (stampiau)	£ 15.93
(Nodyn – ymadawodd y Clarc a'r ystafell yn ystod trafod y tair eitem uchod).	
Swyddfa Archwilio Cymru	£378.90
J.A. Pozzi – barbio'r Comin a'r llwybrau	£1,278.00
	(cynnwys TAW)
J.A. Pozzi – barbio Mynwent Llandegwning	£612.00 (cynnwys TAW)
Nodyn – y taliad yma yn dod allan o Gronfa'r Fynwent.	

81. **CYFARFOD O ARDAL HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL**

Cyflwynwyd adroddiad gan Y Cyngorydd Glyn Roberts iddo fynyachu cyfarfod o AHNE ym Mhlas Heli, Pwllheli, ar 20fed Hydref, 2018. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd y gwaith a wneir ar Lwybr yr Arfordir, grant gynaliadwy i gau cloddiau cerrig mewn manau fel Porth 'Sgaden, Tudweiliog, arddangosfa luniau o deulu Cefnamwlch yn Neuadd Goffa, Sarn wedi cael ei ariannu gan AHNE, ac yna y datblygiad ym Mhlas Pistyll lle bu trafodaeth danbaid ar y mater yma.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a diolch i'r Cyngorydd Glyn Roberts am gynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod.

Penderfynwyd ymhellach fod mynychu'r cyfarfod yma i'w gydnabod yn ddyletswydd cydnabyddiedig.